Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service




GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# Cynllun Strategol 2020-2030

EBRILL 2023 - DIWEDDARIAD BLWYDDYN PEDWAR

**CODI YMWYBYDDIAETH**
**LLEIHAU RISG**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys

Rhagair ... 3
Ein Themâu Strategol ... 5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ... 6
Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021 ... 7
Cynlluniau Rheoli Risg Gymunedol (CRhRG) ... 7
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ... 7
Diweddariad am ein Themâu Strategol
- Eich Cadw'n Ddiogel ... 8
- Ymateb i'ch Argyfwng ... 10
- Gweithio â Phartneriaid ... 12
- Ymgysylltu a Chyfathrebu ... 14
- Diogelu ein Hamgylchedd ... 16
- Defnyddio Technoleg yn Dda ... 18
- Gwerthfawrogi Ein Pobl ... 20
- Parhau i Weithio'n Effeithiol ... 22

Trosolwg o Ystadegau 2022-2023 ... 25
Dangosyddion Perfformiad Strategol ... 26
Ein Cyllideb 2023-2024 ... 28
Datblygu Ein Cynllun ... 29
Cynlluniau a Strategaethau Eraill ... 33
Yr Iaith Gymraeg a Lleisia dy Farn ... 34



# Rhagair



**Huw Jakeway QFSM**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



**Cynghorydd Steven Bradwick**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Croeso i'r pedwerydd diweddariad blynyddol o'n cynnydd Cynllun Strategol 2020-2030.

Gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen eraill a phartneriaid mewn sectorau eraill, ein nod yw diogelu a gwasanaethu ein cymunedau ar draws y 10 Awdurdod Unedol yn Ne Cymru, yn ogystal â'r miloedd o ymwelwyr a ddaw i'r ardal brydferth hon yn Ne Cymru.

Mae'r cynllun yn cyfleu sut byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth o wneud De Cymru'n ddiogelach, wrth leihau risg, drwy gamau gweithredu a chyflawni yn erbyn ein Themâu Strategol a'n Hamcanion ill dau. Er mwyn sicrhau bod y cynnydd yn parhau ar y trywydd cywir, mae gwaith y Gwasanaeth yn cael ei graffu a'i adolygu gan ein Hawdurdod Tân ac Achub, a bydd yn parhau felly.

Mae'r diweddariad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaeth y Gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cynnydd ar y ddau amcan newydd a ychwanegwyd y llynedd yn ogystal â meysydd ffocws allweddol.

Ym mis Rhagfyr 2022, comisiynais adolygiad o'n diwylliant, ein prosesau disgyblu ac achosion disgyblu hanesyddol. Yn dilyn cyfnod canfod ffeithiau a sefydlu Panel Penodi Annibynnol, cadarnhawyd bod Fenella Morris Cwnsler y Brenin (CB) yn Gadeirydd annibynnol yr adolygiad. Drwy gydol 2023, bydd hyn yn flaenllaw yn ein meddyliau a'n cyfathrebiadau wrth i ni ymgysylltu â'r tîm adolygu. Rhagwelir bydd y Cadeirydd yn cyflwyno ei chanfyddiadau a'i hargymhellion ddiwedd y flwyddyn galendr hon.

Mae llawer o heriau yn ein hwynebu fel Gwasanaeth, ond rwy'n sicr, trwy gydweithio, y byddwn yn eu goresgyn hwy ac unrhyw heriau eraill a ddaw yn ystod y flwyddyn hon.

**PST Huw Jakeway QFSM**



**Hyfforddiant a Datblygiad**

Yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, mae criwiau'n dysgu sgiliau newydd mewn awyrgylch realistig, gan weithio fel rhan o dîm ar bob adeg.

# Ein Themâu Strategol

Mae'r tabl isod yn gosod allan yr wyth Thema Strategol sy'n sail i'n Cynllun Strategol 2020-2030 Mae ein hamcanion gwella blynyddol wedi'u hadeiladu o fewn y themâu hyn, sydd hefyd yn strwythuro ein blaenoriaethau a'n cynllunio wrth i ni weithio i gyflawni ein datganiad cenhadaeth:

**Gwneud De Cymru yn fwy diogel, drwy leihau risg.**

Rydym wedi mapio'r themâu hyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICDC) i ddangos sut mae ein blaenoriaethau'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

| Thema Strategol | Yr hyn a wnawn | Thema Strategol | Yr hyn a wnawn |
|---|---|---|---|
| Eich Cadw'n Ddiogel | Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein galw | Diogelu ein Hamgylchedd | Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol |
| Ymateb i'ch Argyfwng | Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch | Defnyddio Technoleg yn Dda | Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi |
| Gweithio â Phartneriaid | Gweithio gyda'r BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion | Gwerthfawrogi ein Pobl | Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth |
| Ymgysylltu a Chyfathrebu | Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol | Parhau i Weithio'n Effeithiol | Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol |

# Datganiad Llesiant

Egwyddor datblygu cynaliadwy DLlCDC yw **"Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion cyfredol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."**

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswyddau o dan DLlCDC. Wrth i ni ddatblygu ein Themâu Strategol, sef y blaenoriaethau lefel uchel sy'n llywio ein cynllun, mae nodau DLlCDC yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawni. Y Saith Nod yw:



Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru lewyrchus


Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r DLlCDC hefyd yn nodi'r **pum ffordd** ganlynol **o weithio** y mae'n rhaid i ni eu hystyried a gweithredu'n unol â hwy wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

- Cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion **tymor hir** - Mae cymryd golwg tymor hwy yn ein Cynllun Strategol 2020-2030 yn ein galluogi i ystyried sut y bydd tueddiadau a newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar y cyhoedd a'n gwasanaethau, gan gynnwys newid hinsawdd a demograffig
- Darparu adnoddau i **atal** problemau – Mae ein gweithgarwch ataliol o weithio gyda busnesau a pherchnogion adeiladau i wneud safleoedd yn ddiogel, a gweithio gydag unigolion a grwpiau i newid ymddygiad, a nod pob un ohonynt yw atal yr angen am ymateb brys
- Defnyddio dull **integredig** trwy gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol - Cynhelir ein proses gynllunio ar y cyd drwy gynnwys rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys ein staff, ein partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, i sicrhau bod effaith cynigion yn cael eu harchwilio'n llawn
- **Cydweithio** ag eraill i helpu cyflawni amcanion llesiant – Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar lefel strategol a lleol
- **Cynnwys** pobl eraill i adlewyrchu amrywiaeth o fewn ardal – Mae ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn sicrhau cyfleoedd i gyfrannu safbwyntiau a syniadau.



**Hirdymor** **Integreiddio** **Cynnwys** **Cydweithio** **Atal**

# Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021

Ers mis Mawrth 2021, bu rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft, pobl sy'n profi tlodi neu fynediad anghyfartal i wasanaethau megis trafnidiaeth. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau gan gynnwys iechyd gwaeth, cyrhaeddiad addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol. Felly, rydym yn talu sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau DLlCDC.

Rydym yn cynnal Asesiad Integredig wrth ddatblygu prosiectau, diwygio neu ysgrifennu polisïau, dylunio mentrau/ymgyrchoedd, ac ati, a chaiff yr asesiadau hyn eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau'n wirioneddol gynhwysol. Drwy fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gael mynediad at ein gwasanaethau, rydym yn canolbwyntio ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

# Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol (CRhRG)

Mae pob un o'n 47 o Orsafoedd Tân ac Achub yn llunio CRhRG blynyddol gan gynnwys asesiad o'r ddemograffeg, i ddeall yn well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn ogystal â risgiau/blaenoriaethau lleol gan gynnwys risgiau adeiladu/adeiladau, dŵr, a ffyrdd. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn amlygu gweithgareddau a mentrau cymunedol sy'n cael eu cynllunio a'u darparu'n lleol ac yn cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

# Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC)

Rydym yn parhau i weithio gyda'r BGC yn ein hardal a'u cefnogi. Mae gan BGC gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd i ddangos sut mae cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCDC) yn cael eu cyflawni.

Rydym bob amser yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut y gallwn fod yn aelodau effeithiol o'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gydweithio a mabwysiadu dull integredig o ddarparu gwasanaethau, i helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn iach yn eu bywydau bob dydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGC yn dangos ein hymrwymiad i egwyddor datblygu cynaliadwy DLlCDC, saith nod DLlCDC a chymhwyso'r pum ffordd o weithio.

Mae strwythur ein BGC wedi newid, wrth i bum awdurdod gyfuno i ffurfio BGC Gwent yn 2021 a BGC Pen-y-bont ar Ogwr a BGC Cwm Taf Morgannwg uno o fis Ebrill 2023 ymlaen. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ar lefel strategol a lleol â'r strwythurau BGC newydd.

Cliciwch ar y logo perthnasol i ymweld â gwefan BGC.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Public Services Board

Our Vale · Ein Bro — Vale of Glamorgan Public Services Board

Cardiff Caerdydd

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CWM TAF Public Services Board

# Eich Cadw'n Ddiogel

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### Beth yw ystyr hwn?

Cefnogir ein gwaith i atal argyfyngau gan raglen o ymgyrchoedd, ymyriadau a gweithgareddau a arweinir gan dystiolaeth, mae llawer ohonynt yn cael eu cychwyn a'u darparu gan bersonél ein gorsaf. Mae pob gorsaf dân ac achub yn datblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRG) blynyddol sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedol a seilir ar wybodaeth leol. Cefnogir hyn gan fonitro risgiau hysbys a risgiau sy'n dod i'r amlwg i amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae gweithio gyda phartneriaid, cydlynu gweithgareddau, a rhannu gwybodaeth yn allweddol i'n llwyddiant Mae hyn yn sicrhau ein bod yn ymatebol ac effeithiol, gyda llawer o'n gweithgareddau lleihau risg yn cael eu cydnabod fel rhai arloesol.

Drwy Eich Cadw'n Ddiogel, byddwn yn gweithio i leihau'r risg o dân ac anafiadau cysylltiedig mewn eiddo domestig, busnes ac adeiladau eraill. Bydd gwaith i leihau tanau bwriadol, gan gynnwys tanau gwyllt a thanau sbwriel, a diogelwch dŵr yn sicrhau bod cymunedau'n gallu mwynhau amgylcheddau awyr agored yn ddiogel. Bydd ein hymgyrchoedd diogelwch ar y ffordd yn gwneud teithio ar ffyrdd yn ddiogelach.

**Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein galw**

### Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- Ostwng effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Leihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)
- Leihau nifer y tanau bwriadol
- Wella diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- Wella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Digwyddiadau a fynychwyd
- Y galw am adnoddau
- Gweithgareddau lleihau risg mewn lleoliadau domestig, busnes a lleoliadau eraill

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Fe wnaethom barhau i nodi safleoedd a fynychwyd sawl gwaith o achos actifadu larymau awtomatig, gweithio gyda pherchnogion/rheolwyr i fynd i'r afael â materion a nodwyd a darparu cyngor diogelwch tân yn y cartref i breswylwyr.

Cynhaliom adolygiad i ddeall yr unigolion a'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl rhag tanau damweiniol yn y cartref a gwnaethom ddiweddaru ein proses ar gyfer targedu gweithgarwch lleihau risg yn y cartref. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio gweithgarwch lleihau risg ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed o fewn eu cymunedau.

Mae llwybrau atgyfeirio gan ein partneriaid ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref wedi cael eu hadnewyddu wrth i ni barhau i hyrwyddo ein gweithgarwch lleihau risg. Mae cynlluniau i gyflwyno teclyn hunanasesu diogelwch tân yn y cartref ar-lein Cymru gyfan bron yn barod - bydd yr offeryn hwn yn rhoi cyngor wedi'i deilwra i unigolion gan gynnwys cynnig ymweliad ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl mawr.

Fe wnaethom barhau i gyflwyno'r rhaglen Opsiynau 30-20, sef menter ar y cyd â Gan Bwyll a Llywodraeth Cymru i gyflawni newid ymddygiad wrth i derfynau cyflymder ffyrdd gael eu lleihau. Erbyn diwedd mis Chwefror, roeddem wedi rhyngweithio â 547 o yrwyr mewn 28 o ddigwyddiadau ac mae gwerthusiadau'n dangos bod effaith gadarnhaol. Bu negeseuon diogelwch beicio yn rhan o'n cyflwyniadau gan weithio gyda Gan Bwyll a Heddluoedd Gwent a De Cymru, i amlygu cyfrifoldebau gyrwyr i feicwyr.

Mae ein Strategaeth Achub Dŵr dros bum mlynedd 2021-2026 yn nodi ein cynllun i sicrhau y gall adnoddau achub o ddŵr gyrraedd unrhyw leoliad o fewn 30 munud. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer ein gallu i ymateb i achubiadau o ddŵr mewndirol, gan gynnwys digwyddiadau llifogydd y disgwylir iddynt gynyddu gyda newid yn yr hinsawdd. Eleni symudom i Gam 2 gan ganolbwyntio ar ein gallu i fynd i ddŵr bas sy'n symud yn araf i helpu gydag achub rhag llifogydd. Y nod yw sicrhau bod gan bob gorsaf dân ac achub Dyletswydd Gyflawn allu ymatebydd cyntaf dŵr dros y ddwy flynedd nesaf.

Profwyd ein hymateb i danau gwyllt ym mis Gorffennaf ac Awst a mynychwyd dros 500 o danau glaswellt yn ystod cyfnod hir o dymereddau uchel a glawiad isel. Fodd bynnag, cafodd yr effeithiau eu cynnwys mewn cymunedau allweddol yng Nghymoedd De Cymru lle mae'r prosiect Bryniau Iach yn weithredol. Mae hon yn bartneriaeth sefydledig gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n **gwefan**.

## Beth wnawn ni yn 2023-2024

**Parhau i weithio gyda'n partneriaid ar ymgyrchoedd i leihau nifer y tanau bwriadol** – bydd hyn yn adeiladu ar bartneriaethau sydd eisoes yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cyrraedd cymaint o bobl a phosib ar draws cymunedau De Cymru.

**Dod o hyd i ffyrdd newydd i hyrwyddo negeseuon diogelwch** – er enghraifft, byddwn yn creu "gemau" rhyngweithiol newydd i ymgysylltu â phlant a hybu diogelwch yn y cartref.

**Gweithio i ddeall y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fewn ein cymunedau** – drwy ddeall risg o fewn ein cymunedau, gallwn sicrhau bod ein hadnoddau lleihau risg yn cael eu targedu'n well a chyrraedd y rhai sydd angen ein cymorth fwyaf.

**Archwilio cyfleoedd i wella ein dulliau casglu gwybodaeth am adeiladau a lleoliadau eraill** – trwy ddatblygu ein gallu ymchwilio i dân, rhaglen archwilio tyrrau uchel, cynlluniau rheoli tir a chasglu gwybodaeth gan griwiau mewn digwyddiadau gweithredol, byddwn yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a gwella diogelwch diffoddwyr tân.

**Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith ein cymunedau** – byddwn yn targedu lleoliadau a grwpiau sydd fwyaf mewn perygl drwy rannu gwybodaeth â'n partneriaid.

**Ehangu ein mentrau diogelwch ffyrdd Opsiynau 30-20, Gwregysau Diogelwch a Domino** – bydd ein mentrau'n parhau i hyrwyddo negeseuon ein hymgyrch Pum Angheuol gan amlygu'r prif ffactorau cyfrannol sy'n achosi GTFf difrifol.

# Ymateb i'ch Argyfwng

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru iachach

## Beth yw ystyr hwn?

Mae ein hymateb yn dechrau gyda galwad i'n Hystafell Cyd-Reoli Tân (CRT). Byddwn yn casglu gwybodaeth allweddol i ddanfon yr offer a'r bobl gywir i fynd i'r afael â'r digwyddiad. Mae ein personél Cyd-Reoli Tân profiadol yn cefnogi'r galwr yn ystod eu hargyfwng ac yn darparu cefnogaeth barhaus i'r criwiau sy'n mynychu trwy gydol y digwyddiad, i sicrhau canlyniad diogel.

Mae sicrhau bod ein hymateb yn effeithiol yn dibynnu ar hyfforddiant priodol i'n criwiau er mwyn iddynt fod yn barod i ymdrin â'r digwyddiadau y maent yn eu hwynebu. Mae ein hadran Hyfforddi yn sicrhau bod cyrsiau'n cael eu darparu i baratoi ein criwiau ar gyfer gofynion cyfredol a gofynion y dyfodol ill ddau.

Mae ein diffoddwyr tân Ar Alwad yn byw yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae gan 27 o'n 47 o orsafoedd tân ac achub griw llawn o ddiffoddwyr tân Ar Alwad ac ar ben hynny mae gan naw gorsaf dân ac achub Ddyletswydd Gyflawn gyda chriwiau Ar Alwad. Mae ein ffocws felly ar raglen recriwtio barhaus sy'n sicrhau bod y gallu hwn yn cael ei gynnal.

Mae'r ffocws hwn ar ymateb yn effeithlon ac effeithiol i unrhyw argyfwng yn rhoi sicrwydd ein bod yn barod i fynd i'r afael ag anghenion newidiol ein cymunedau, o boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd a mabwysiadu technoleg newydd megis cerbydau trydan.

**Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch**

### Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod criwiau ein System Dyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, staff Cyd-Reoli Tân, a staff eraill i ymateb i risgiau presennol ac yn y dyfodol yn ein cymunedau

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Galwadau a dderbyniwyd a digwyddiadau a fynychwyd
- Gweithgareddau recriwtio
- Gweithgareddau hyfforddi a datblygu

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Ym mis Awst, cynhaliom ein 'Mis Recriwtio Diffoddwyr Tân Ar Alwad' cyntaf, gan amlygu rôl diffoddwyr tân Ar Alwad a hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau, swyddi gwag a digwyddiadau. Yn ystod y flwyddyn cynhaliom bron i 40 o ddigwyddiadau recriwtio, gyda phersonél yr orsaf yn hyrwyddo swyddi gwag ychwanegol yn lleol. Erbyn diwedd Chwefror 2023 roeddem wedi recriwtio 107 o ddiffoddwyr tân Ar Alwad o'u cymharu â 57 o recriwtiaid yn 2021-2022.

Cynhaliom ymarferion recriwtio i Ddiffoddwyr Tân Cynorthwyol a staff Cyd-Reoli Tân Cynorthwyol i sicrhau y gallwn barhau i fodloni ein dyletswyddau statudol a'n gofynion cyfreithiol i ddarparu darpariaeth Tân ac Achub brys i gymunedau De Cymru.

Rydym hefyd wedi adolygu ein profiad o weithio drwy'r pandemig Covid-19, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd er mwyn cynnal ffyrdd gwell o weithio.

Mae rhaglen ymarfer eleni wedi canolbwyntio ar senarios sy'n seiliedig ar risgiau a adnabuwyd yn lleol gyda grwpiau o Orsafoedd Tân ac Achub yn ymateb i briffoedd a oedd yn cynnwys: tân mewn bloc o fflatiau, GTFf yn cynnwys amryw o gerbydau a digwyddiadau cemegol mewn safleoedd masnachol. Yn gyfansymiol, mae 144 o ymarferion wedi digwydd i brofi ein hymateb a chefnogi ein cynlluniau rheoli risg cymunedol lleol (CRhRC).

Ym mis Mai cynhaliom ymarfer hyfforddi ar y cyd â Medserve, Ymddiriedolaeth (GIG) Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Heddlu De Cymru ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd. Darparodd senarios GTFf gyfleoedd hyfforddi realistig i 200 o fyfyrwyr a chafwyd adborth cadarnhaol sylweddol.

Disodlwyd tri pheiriant achub yn ein fflyd gyda cherbydau newydd, wedi'u huwchraddio i allu achub o ddŵr Math C. Mae'r peiriannau newydd, a ddanfonwyd i Orsafoedd Tân ac Achub Pontypridd, Trelái a Merthyr, yn gwella galluoedd chwilio a gweithrediadau achub cychod di-bwer, gan gynnwys ymateb i lifogydd.

Cynigiodd yr Adolygiad CRT bum argymhelliad i'w gweithredu. Rydym wedi penodi Pennaeth Rheoli newydd ac mae cyfleusterau lles ar y safle wedei gwella. Bydd gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd heb eu cyflawni eto.

Rydym wedi cwblhau prosiect adnewyddu offer bach gan gynnwys gwisg gwaith tywydd gwlyb, llifiau cilyddol ac offer GTFf a weithredwyd drwy law batri.

## Beth wnawn ni yn 2023-2024

**Datblygu a chyflwyno peiriannau tân 4x4 manyleb newydd** – i wella ein gallu i ymateb gydag ystwythder ychwanegol.

**Sicrhau bod ein systemau cofnodi a rhannu gwybodaeth risg yn cefnogi ein gweithgareddau yn effeithiol** – bydd adolygu ein gwaith casglu a choladu gwybodaeth yn cadarnhau bod gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen pan fydd gofyn amdani.

**Cynnal ymchwil i ymateb brys i danau sy'n ymwneud â cherbydau trydan** – bydd hyn yn cefnogi ein datblygiad i gwrdd â risgiau a gofynion newidiol.

**Adolygu strwythur RhTC a gweithgareddau recriwtio ill ddau** – fel y gallwn barhau i warantu ymateb effeithlon ac effeithiol i alwadau brys gan ein tîm profiadol a hyfforddedig.

**Sicrhau bod ein rhaglenni hyfforddi yn paratoi ein staff ar gyfer heriau'r dyfodol** – yn ogystal ag ystyried hyfforddiant gweithredol a'r galw ar y Gwasanaeth yn y dyfodol, byddwn yn cefnogi staff yn eu llwybrau datblygu gyrfa dewisol.

**Archwilio cyfleoedd i gynyddu darparu hyfforddiant ar-lein i ddatblygu cymhwysedd gweithredol** – bydd hyn yn caniatáu darparu hyfforddiant mewn ffordd fwy hyblyg, ei integreiddio â gweithgareddau gweithredol, a lleihau'r angen i deithio i leoliad canolog.

**Hyrwyddo swyddi gwag trwy ddefnydd ehangach o gyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb** – trwy galendr o sesiynau Ffitrwydd i Ymladdwyr Tân a chymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaol.

# Gweithio â Phartneriaid

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru lewyrchus

## Beth yw ystyr hwn?

Mae partneriaethau sydd wedi'u hen sefydlu yn ein helpu i wella gwasanaethau ar gyfer cymunedau De Cymru. Mae cydweithio ag eraill yn golygu ein bod yn osgoi dyblygu adnoddau, gan wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn creu profiad gwell i'r cyhoedd wrth i'n dealltwriaeth o sefydliadau a gwasanaethau eraill gynyddu – gallwn gyfeirio at ddarparwyr eraill a gallant gyfeirio atom.

Mae ein partneriaethau a'n cydweithrediadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Wrth i bartneriaethau dod yn eu blaenau rydym yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach.

Fel partner statudol ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) o fewn ein hardal gwasanaeth, rydym yn cefnogi cyflawni Cynlluniau Llesiant a blaenoriaethau lleol i sicrhau bod ein gweithgareddau yn cyflawni gwelliannau hirdymor i bobl o fewn ein cymunedau. Mae llawer o'n gorsafoedd tân ac achub yn ffocws ar gyfer gweithgaredd cymunedol ac mae ganddynt gydberthnasau gwerthfawr gyda grwpiau lleol, ac mae ein Tîm Troseddau Tân yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Diogelwch Cymunedol i leihau trosedd ac anhrefn.

Bydd cyflawni canlyniadau yn erbyn y thema hon yn ymgorffori gweithio mewn partneriaeth ymhellach yn ein gweithgareddau.

**Gweithio gyda'r BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion**

### Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid wrth:

- Weithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Weithio â'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Cytundebau a gweithgareddau partneriaeth
- Ymgysylltu â BGC
- Ein hystod o bartneriaethau a chydweithrediadau

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Yn ogystal â gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i leihau nifer yr achosion o danau gwyllt a'u heffaith ar ein cymunedau, fe wnaethom ddechrau prosiect i rannu data ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddeall yn well effaith tanau gwyllt ar achosion o gyflyrau anadlol.

Mae Tîm Troseddau Tân y Gwasanaeth yn cefnogi gweithredu lleol ar ddiogelwch cymunedol, gan gynnwys darparu cefnogaeth mewn ymateb i atgyfeiriadau trais domestig i gyflawni adnoddau caledu targedau a lleihau llosgi bwriadol mewn cydweithrediad â'r heddlu ac asiantaethau lleol. Mae'r Tîm hefyd yn monitro cynnau tanau bwriadol ac yn gweithio gyda gorsafoedd a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i fonitro cynnau tanau'n fwriadol, gan nodi a mynd i'r afael ag unrhyw dueddiadau a nodwyd.

Mae ein hymgysylltiad â phartneriaid cymunedol wedi cynnwys defnyddio cyfleusterau gorsafoedd ar gyfer cyfarfodydd gan grwpiau fel Age Connect a Chlinigau Cwympiadau'r GIG, yn ogystal â gwaith gyda phartneriaid lleol mewn mentrau gan gynnwys atal boddi. Yng Nghaerffili, buom yn cydweithio â phartneriaid yn Springfield ar raglen gyflogaeth a recriwtio cyffredinol o ddiffoddwyr tân Ar Alwad a Dyletswydd Gyflawn ill ddau.

Ym mis Mehefin 2022, mewn partneriaeth ag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth (GIG) Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), lansiodd y Gwasanaeth ei ymgyrch diffibrilwyr gyntaf ar draws pob un o'r 47 o orsafoedd Tân ac Achub. Roedd hyn yn gosod unedau diffibriliwr ym mhob gorsaf ac yng nghanol cymunedau.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth a'r Cyrff Cynrychioliadol wedi cytuno ar yr egwyddorion gweithredu ar gyfer Rosteru Hyblyg effeithiol. Bydd y system yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan weithgor ar y cyd neu ar gais unrhyw un o'r partïon dan sylw, fel y bo'n briodol, i sicrhau bod yr egwyddorion a nodir yn parhau i fod yn effeithiol. Bydd hyn yn caniatau'r lefelau criwio gorau posibl trwy gynllunio ymlaen llaw a defnyddio staff mewn gorsafoedd yn hyblyg mewn ffordd sy'n dyrannu adnoddau yn ôl y galw.

Fe wnaethom barhau i gefnogi'r Cynlluniau Prif Awdurdod (CPA) cyfredol, gan weithio mewn partneriaeth â busnesau a phartneriaid tai cymdeithasol i sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth ddarparu cyngor diogelwch tân a gweithgarwch rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Chartrefi Cymunedol Cymru i roi cyngor i'w haelodau ledled Cymru.

Mae ein tîm Hydwythdedd a Chynllunio yn cydlynu grŵp cynllunio digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau mawr, gan arwain datblygiad y broses o gipio ac asesu risg digwyddiadau fel y gellir eu rheoli'n briodol.

## Beth wnawn ni yn 2023-2024

**Wrth i BGC lansio eu Cynlluniau Llesiant Lleol 2023-2028, byddwn yn sicrhau ein hymgysylltiad parhaus** – bydd hyn yn ein galluogi i ddeall yn well yr heriau a wynebir gan ein cymunedau a chefnogi'r rhai â'r angen mwyaf.

**Mapio ein gweithgareddau a wneir ar y cyd â phartneriaid ar hyn o bryd a chytundebau rhannu data** – bydd hyn yn ein helpu i nodi a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu.

**Adolygu a gwella ein perthynas â phartneriaid Fforwm Hydwythdedd Lleol (FfHLl) a Hydwythdedd Cenedlaethol yng Nghymru** – i sicrhau dull cydlynol a chydweithredol o ymdrin â risgiau, bygythiadau a niwed i'n cymunedau yn unol â risgiau a ddaw i'r amlwg.

**Adolygu ein trefniadau gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer ein darpariaethau iechyd meddwl i staff** – i sicrhau ein bod yn cynnig ystod effeithiol o gymorth i'n staff.

# Ymgysylltu a Chyfathrebu

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru gydnerth
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Beth yw ystyr hwn?

Mae llawer o ffactorau sy'n ein helpu i lunio ein hamcanion a'n cynlluniau, gyda barn ein staff, cymunedau a rhanddeiliaid yn ganolog wrth sicrhau ein bod yn nodi'r blaenoriaethau o bwys. Mae ystod eang o fuddiannau i'w hystyried, gan gynnwys criwiau ar y rheng flaen a'r staff sy'n eu cefnogi, i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw. Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r gwaith yr ydym yn ei wneud, yr heriau a wynebwn, a diben ein gweithgareddau.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein cymunedau a'n staff yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth cymunedol rhagorol, drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'n staff a'n dinasyddion i helpu i lunio ein gweithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ill dau. Byddwn hefyd yn ceisio cael barn mwy o bobl ar sut rydym yn rhannu gwybodaeth.

Amlygodd adborth ymgynghoriad diweddar yr angen i gyfathrebu ein cyfrifoldebau a'n gweithgareddau yn well yn ogystal â hyrwyddo sut y gall ein cymunedau gymryd rhan.

**Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol**

### Byddwn ni'n ymgysylltu a chyfathrebu wrth:

- Cynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael llais yn yr hyn rydyn ni'n gwneud
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Ymatebion a dderbyniwyd i arolygon a mentrau ymgysylltu
- Ymgysylltu trwy law ein Cofrestr Rhanddeiliaid
- Gweithgareddau cymunedol lleol
- Ymgysylltu â fforwm Shout, ein sesiynau cyfathrebu staff mewnol

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Rydym wedi cynhyrchu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n cael ei rhoi ar waith. Mae ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu hehangu, ac mae tudalennau Facebook gorsafoedd wedi cael eu hadfywio er mwyn ymgysylltu mwy â'n cymunedau. Pan fydd ysgolion yn rhannu diweddariadau gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol yn dilyn ymweliadau ysgol, rydym yn diolch iddynt neu'n rhannu negeseuon ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein gorsafoedd tân ac achub unwaith eto yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys ymgysylltu â grwpiau pobl ifanc a hefyd

gweithredu fel lleoliad ar gyfer Clinigau Cwympiadau mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Gan fod ein gorsafoedd yn rhan annatod o fewn eu cymunedau lleol, rydym yn awyddus i achub ar gyfleoedd i ddatblygu'r rôl hon ymhellach a byddwn yn gweithio gyda BGC a phartneriaid eraill.

Rydym wedi cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch gwahardd digidol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan y gallai'r bobl sy mwyaf agored i niwed gael eu gwahardd rhag cyrchu gwybodaeth drwy lwyfannau digidol am resymau amrywiol.

Ystyrir dulliau nad ydynt yn ddigidol fel rhan o bob cynllun ymgyrchu mawr a chyfeirir atynt yn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r dulliau a ddefnyddir, megis ein hymgyrch diogelwch dros y Nadolig ac ymgyrchoedd recriwtio diffoddwyr tân Dyletswydd Gyflawn, yn cynnwys defnyddio cerbydau gyda hysbysfyrddau, taflenni, pamffledi, hysbysebion papur newydd, radio a theledu, baneri awyr agored, a digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Byddwn yn ymgynghori ar strategaeth recriwtio ar gyfer y Gwasanaeth, gan ymgorffori canllawiau arfer gorau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (CCPT). Mae datblygu prosesau monitro a gwerthuso yn parhau i sicrhau effeithiolrwydd ein gweithgarwch recriwtio.

Gwelodd ymgyrch recriwtio System Dyletswydd Gyflawn (SDdG) 2022 gynydd yng nghyfran yr ymgeiswyr benywaidd o 10% o'r flwyddyn flaenorol i 12%. Yn gyfansymiol, roedd bron i 14% o ymgeiswyr benywaidd yn llwyddiannus a chynigwyd swydd SDdG iddynt o'i gymharu ag ychydig dros 6% o'r ymgeiswyr gwrywaidd.

## Beth a wnawn yn 2023-2024

**Ehangu a hyrwyddo sianeli sy'n galluogi ein staff a rhanddeiliaid i roi adborth a gwneud sylwadau am ein cynlluniau a'n gwasanaethau** – trwy ddatblygu a hyrwyddo mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori newydd, byddwn yn gwella ein gallu i dderbyn adborth gan staff ac aelodau o ein cymunedau.

**Gwella cydlyniad ein hymglymiad mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gan ddarparu cefnogaeth i orsafoedd tân ac achub** – bydd hyn yn helpu ein gorsafoedd i ddatblygu eu cyfranogiad lleol a'u rôl o fewn eu cymunedau.

**Rhannu mwy o wybodaeth o'r ystod o weithgareddau a ymgymerwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru** – mae cyfrifoldebau gwasanaeth tân ac achub modern yn eang ac, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym hefyd rôl wrth gyflawni ar agenda ehangach, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Lansio pecyn cymorth ymgysylltu safonol i'w ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth** – bydd hwn yn darparu adnoddau ar gyfer cynllunio, darparu, a gwerthuso digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill.

# Diogelu ein Hamgylchedd

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

## Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn gwybod bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd bydeang a lleol, ac rydym yn ymrwymedig i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Bydd ein Cynllun Lleihau Carbon 2023-2030 yn parhau'r gwaith o'n cynllun cychwynnol yn cwmpasu 2018-2023 wrth nodi ein rhaglen i gwrdd â mandad Llywodraeth Cymru am sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r adnoddau rydym yn defnyddio – o ostwng, ailddefnyddio ac ailgylchu i werthuso canlyniad amgylcheddol ein penderfyniadau caffael. Mae effaith newid hinsawdd yn cael ei dystiolaethu gan newidiadau i'r gofynion rydym yn wynebu: disgwylir i gyfnodau mwy cyson a hirfaith o dywydd eithafol i gynyddu tanau gwyllt a llifogydd. Dim ond drwy law partneriaethau effeithiol y gellir mynd i'r afael â hwn, felly rydym yn parhau i gydweithredu â phartneriaid allweddol i ddeall a mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae gennym ganolbwynt cymunedol cryf i'n gwaith, yn gwneud yr amgylchedd naturiol yn ddiogel a chyrchadwy. Mae gwybodaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig a chefnogaeth ar gyfer camau lleol yn allweddol - o weithio gydag ysgolion i gefnogi partneriaethau lleol.

Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

### Byddwn yn diogelu ein hamgylchedd wrth:

- Ostwng y defnydd o ddeunyddiau defnydd untro
- Ehangu ein defnydd o gerbydau trydan
- Ostwng ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd
- Ostwng y swm o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Ein Cynllun Lleihau Carbon a chynnydd tuag at ddod yn garbon niwtral
- Ein fflyd a darpariaeth ein mannau gwefru i gerbydau trydan (CT)
- Milltiroedd teithio busnes
- Y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Cwblhawyd ein Strategaeth Ymgysylltu ar Gynaliadwyedd ac fe'i cyflawnir gyda gwybodaeth yn cael ei wneud ar gael i'n staff a'r cyhoedd. Bydd y strategaeth yn helpu saernïo'n ymgysylltiadau a hyrwyddiad ein gweithgareddau gan gynnwys cynnydd ar ostwng ein hôl troed carbon. Rydym wedi cyfrifo ein hôl troed carbon gan ddefnyddio methodoleg ôl droed carbon Llywodraeth Cymru, yn unol â chyrff cyhoeddus eraill

fel y gellir gwneud cymhariaethau. Rydym hefyd wedi cymharu ein hallyriadau â'n gwaelodlin allyriadau ar gyfer ynni, fflyd, cadwyn gyflenwi a chyfanswm milltiroedd busnes o'n blwyddyn gwaelodlin o 2018-2019 lle gwelsom gostyngiad o 14%.

Rydym wedi cynyddu ein safleoedd glas wrth gyflwyno coed a phlannu ychwanegol yn parhau. Esiampl o hyn yw'r gwaith a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân ac Achub Cwm Ogwr lle, gyda chefnogaeth gan yr awdurdod lleol, ymestynnwyd yr ardal lesiant a ddefnyddir gan staff a phlannwyd coed. Bydd yn darparu adnodd ychwanegol i'n gwaith gyda'r gymuned leol gyda gweithgareddau allanol megis cefnogi ysgolion coedwig.

Mae ein fflyd wedi ehangu i gynnwys 41 CT gan gynnwys 25 o geir, 14 o faniau. Mae'r cerbydau hyn yn fwy effeithlon na'r cerbydau disel maen nhw wedi amnewid ac maent yn helpu ni i leihau allyriadau carbon o ran teithio a lleihau llygredd gan allyriadau egsôst. Bellach mae gennym fannau gwefru CT mewn 12 lleoliad gyda 26 o safleoedd pellach i'w cwblhau erbyn diwedd Mai 2023.

Mae cytundeb rheoli gwastraff newydd yn cael ei gwblhau. Bydd hyn yn ein galluogi ni i fonitro ein ffrydiau gwastraff.

Mae gweithredu cytundeb swyddogaeth brint newydd wedi caniatâu i ni amnewid ein hargraffwyr aml-swyddogaeth yn y Pencadlys, Iechyd Galwedigaethol a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd gyda modelau newydd, mwy effeithlon fydd yn darparu tracio meintiau argraffu. O 2018-2019 i 2021-2022 fe wnaethom leihau ein pryniant o bapur copïo A4 43%.

Mae cyflwyno'r dechnoleg sychu newydd ym mhob gorsaf dân ac achub yn parhau gydag 17 o orsafoedd wedi'u cwblhau hyd yma. Mae'r dechnoleg hon yn synhwyro sychder ac yn "diffodd yn awtomatig" unwaith fydd deunyddiau'n sych, yn arbed ynni a lleihau costau. Bydd gwaith yn cael ei gynnal yn y 10 gorsaf dân ac achub Ar Alwad s'n weddill.

## Beth a wnawn yn 2023-2024

- **Adolygu datblygiadau mewn tanwydd a thechnolegau eraill i adnabod cyfleoedd a all fod yn fuddiol i bolisi amnewid asedau fflyd a strategaeth gaffael y Gwasanaeth** – i werthuso a chynyddu ein dyhead am fflyd wyrddach.
- **Gweithredu System Rheoli Amgylcheddol** – fel y cawn ennill cydnabyddiaeth i'n harferion amgylcheddol ac arddangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, ystyriaeth o effeithiau amgylcheddol, cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a diogelu'r amgylchedd.
- **Datblygu deialog agored â staff ar ein safbwynt lleihau carbon a'r heriau rydym yn wynebu** – wrth ymgysylltu a chynnwys cydweithwyr ar draws y Gwasanaeth, byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ac annog datrysiadau arloesol.
- **Cytuno a diffinio gofynion sylfaenol adeilad cynaliadwy** – yn yr hirdymor, bydd hyn yn sicrhau bydd ein hadeiladau yn effeithlon o ran adnoddau ac yn amgylcheddol gyfrifol ar hyd eu cylch bywyd.

# Defnyddio Technoleg yn Dda

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

## Beth yw ystyr hwn?

Mae technoleg wedi'i gorffori yn ein gwaith, o gefnogi technegau ac offer diffodd tân gweithredol i systemau swyddfa gefn sy'n darparu gwasanaethau busnes a chofnodi ein gweithgareddau. Mae'n caniatáu i ni weithio'n effeithiol, gan ddarparu mewnwelededd a chyflenwi enillion effeithlonrwydd. Rydym yn adolygu ein defnydd o dechnoleg yn gyson i sicrhau ein bod yn defnyddio'r caledwedd a'r feddalwedd fwyaf priodol wrth i ni gadw ein cymunedau'n ddiogel. Tra bydd defnyddio'r dechnoleg orau i gofnodi a monitro galwadau brys, danfon y cerbydau a'r criw cywir atoch ynghyd â'n helpu ni ar leoliad y digwyddiadau brys eu hunain yn flaenoriaeth bennaf i ni, mae buddion pellach i'n staff. Er enghraifft, mae cysylltiadau gwell yn ein helpu ni i uno staff yn ein gorsafoedd tân ac achub a lleoliadau eraill, gan leihau'r angen i deithio a helpu'r amgylchedd, ynghyd â lleihau risg ar y ffyrdd.

Mewn byd sy'n gynyddol ddigidol, rhaid i ni fod yn gyfrifol yn ein defnydd o dechnoleg a rheoli data. Felly, mae ein systemau'n datblygu'n barhaus i sicrhau diogelwch data wrth gynorthwyo ein gweithgareddau.

**Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi**

### Byddwn yn defnyddio technoleg yn dda wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Digwyddiadau seibr-ddiogelwch
- Cyfarfodydd ar-lein
- Galwadau Desg Gymorth

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Datblygu ein hadolygiad datblygu personol a'n system rheoli dysgu. Mae hyn yn cael ei ddarparu drwy law Core, ein porthol AD, i gyflenwi system integredig i'r staff cyfan.

Mae ein stiwdio cyfryngau bellach wedi'i gwblhau ac wedi'i ddefnyddio eisoes i gynhyrchu fideos o ddigwyddiadau ffrwd fyw ar gyfer Misoedd Ar Alwad a Hanes Pobl Dduon. Rhagdybir bydd y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu fideos pellach ar gyfer

ymgyrchoedd.

Mae pecyn hyfforddi ar gyfer Camerâu Delweddu Thermol (CDTh) wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno. Mae uwchraddio i'r camerâu newydd ysgafnach, llai hefyd yn darparu delweddau o ansawdd gwell.

Bydd mudo'r defnyddwyr i feddalwedd Microsoft Office 365 yn cael ei gwblhau erbyn Ebrill 2023. Mae hyn eisoes wedi darparu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu ac wedi galluogi trawsnewid i Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd rhithiol. Mae'r cyfleuster hwn yn darparu cyfathrebu mwy effeithlon o fewn y Gwasanaeth ac wedi gostwng teithio am gyfarfodydd.

## Beth a wnawn yn 2023-2024

- **Archwilio'r defnydd o ddyfeisiau digidol i hyrwyddo arferion gwaith newydd ac arloesol** – gall defnyddio dyfeisiau symudol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a diweddaru cofnodion ddarparu arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy o ran rheoli data.
- **Adolygu System Rheoli Gwybodaeth y Gwasanaeth i sicrhau bydd data ar gael ar gyfer gweithgareddau monitro a chynllunio** – mae sicrhau bydd data ar gael pan fydd ei angen yn hanfodol ar gyfer cynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- **Archwilio technoleg i ehangu ein cyfres o weithgareddau lleihau risg** – gall defnyddio technoleg gynyddu cyrhaeddiad ein lleihau risg drwy law arbedion effeithlonrwydd ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.
- **Dyrchafu a thyfu Rhaglen Archwilio sy'n Seiliedig ar Risg electronig a gyflwynwyd yn ddiweddar i safleoedd annomestig, yn seiliedig ar y risg i ddiogelwch bywyd personau perthnasol** – bydd hyn yn cefnogi ymweliadau rhagdrefnedig i wirio cydymffurfiaeth yn unol â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).
- **Parhau'r rhaglen i uwchraddio'r holl weinyddion** – bydd amnewid neu uwchraddio gweinyddion yn caniatáu i ni adolygu cymwysiadau a lleihau costau wrth gynyddu effeithlonrwydd a diogelwch.
- **Datblygu system danfon negeseuon fydd yn caniatáu i Iechyd Galwedigaethol gadarnhau apwyntiadau drwy law negeseuon testun a derbyn diweddariadau ar y rhai hynny a dderbyniwyd yn llwyddiannus** – bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd a'n lleihau nifer yr apwyntiadau a gollwyd.

# Gwerthfawrogi ein Pobl

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru iachach

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn cydnabod a gwerthfawrogi ein pobl fel ein hased fwyaf pwysig wrth gyflawni'n hamcanion ac wrth ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cymunedau. I lwyddo, mae angen y bobl gywir gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir. Dylai ein gweithlu hefyd gynrychioli'r cymunedau rydym yn gwasanaethu, bod yn amrywiol ac â mynediad at gyfleoedd datblygu i sicrhau bydd ganddynt yrfaoedd gwerthfawr.

I gyflawni hwn, rhaid i ni hyrwyddo ein diwylliant, byw yn ôl ein gwerthoedd a hwyluso gweithlu uchel ei berfformiad sy'n dalentog, yn fedrus, yn amrywiol a brwd. Mae craffu diweddar wedi amlygu pwysigrwydd arddangos ein gwerthoedd yn ein rhyngweithiadau â'n gilydd a'n cymunedau. Mae'r Prif Swyddog Tân wedi comisiynu Adolygiad Annibynnol Diwylliant a ddisgwylir i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023. Er nad ydym am rhagatal canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad, byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau mae'r Gwasanaeth yn arddangos y gwerthoedd sydd wrth wraidd ein cred.

Byddwn yn datblygu agwedd eangfrydig i wella llesiant gweithwyr i leihau absenoldeb oherwydd salwch a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd. P'un ai'n weithiwr neu'n wirfoddolwr i'r Gwasanaeth, mae gan bawb rôl allweddol wrth gadw'n cymunedau'n ddiogel.

**Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth**

### Byddwn yn defnyddio technoleg yn dda wrth:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Ddatblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Gefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a'n hapus yn y gwaith
- Darparu argymhellion yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP)
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Trosiant, dargadwedd a recriwtio staff
- Adolygiad personol – sgoriau ymgysylltu
- Absenoldeb staff
- Ymosodiadau ar griwiau

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Fe wnaethom symleiddio'r broses recriwtio Ar Alwad fel bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cychwyn hyfforddiant cychwynnol yn gynt. Mae llyfryn Datblygu Ar Alwad yn rhoi cynllun pedair wythnos cyn y cwrs cychwynnol. Mae hyn wedi gwella dargadwedd gan fod recriwtiaid wedi'u paratoi'n well.

Fe wnaethom ddechrau gwaith ar brosiect Llwybrau newydd i gorffori datblygu sgiliau, gwybodaeth a galluogrwydd i'r staff cyfan ar draws y Gwasanaeth. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel o fewn y Gwasanaeth ac ar draws pob swyddogaeth ac yn cysylltu â fframwaith Arweinyddiaeth y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) gan roi ystyriaeth lawn i'n hadborth BmP. Conglfaen hyn yw'r broses Adolygu Personol.

Lansiwyd ein system dysgu rheoli newydd, y porthol dysgu a datblygu, yr e-Hyb, ym Mawrth 2023. Mae hyn yn cynnal pob sgil nad sy'n dechnegol neu'n "sgiliau meddal" yng nghyd â datblygu, gan gynnwys Arweinyddiaeth, Hydwythedd, Sgyrsiau Anodd ac ati. Mae hyn oll wedi'u cyfannu i'n porthol staff ar-lein. Bydd y porthol e-Hyb hefyd yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i reolwyr llinell ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae ein Rhwydwaith Niwroamrywiaeth, a lansiwyd yn 2022, yn casglu ystod o gymorth ac adnoddau ynghyd i gefnogi unigolion, gan gynnwys cyflwyno Asesiad Nirwoamrywiaeth a ellir ei gwblhau ar sail hunan-atgyfeiriad. Gall hwn adnabod addasiadau rhesymol i gynorthwyo â'r amgylchedd gwaith, gan gynnwys canllawiau ar hygyrchedd TGCh, cymorth gan ein tîm Iechyd Galwedigaethol neu Raglen Cefnogi Gweithwyr y Gwasanaeth.

Mae'r Grŵp Cyflenwi Llesiant yn parhau i hyrwyddo iechyd a llesiant, er enghraifft, yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy law ein rhaglen cefnogi gweithwyr ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r menopôs. Rydym yn parhau i archwilio i ymestyn ein rhwydwaith o Eiriolwyr Meddwl/Iechyd Meddwl gyda'r bwriad o gynyddu'r rhwydwaith gan hyd at 30 o aelodau.

Fe wnaethom gychwyn rhaglen bedair-blwyddyn i ymestyn a gwella cyfleusterau yn 10 o'n gorsafoedd tân ac achub Ar Alwad. Mae gwaith wedi cychwyn yng Ngorsaf Dân ac Achub Pontycymer a bydd yn dilyn yng Ngorsaf Dân ac Achub Treorci yn Haf 2023.

Fe wnaethom barhau i fod yn rhan o'r "Gymuned Ymarfer" a gynhaliwyd gan Academi Cymru i rannu syniadau ac arferion gorau ar gyflawni diwylliant dwyieithog yn y gweithle. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o "ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" a'n rhwymedigaethau strategol o dan Safonau'r Gymraeg.

## Beth a wnawn yn 2023-2024

**Adolygu a chodi ymwybyddiaeth o ystod eang rhaglenni buddion gweithwyr y gwasanaeth** - i sicrhau bydd cymorth ar gael i'r staff cyfan yn cael ei hyrwyddo a'i fod yn gyrchadwy.

**Sicrhau fod gan y staff cyfan fynediad at lwybr dysgu** – fel gall bob gweithiwr adeiladu eu gwybodaeth a'u sgiliau i gefnogi'u gyrfa o fewn y Gwasanaeth.

**Ail-lunio ein fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i gwrdd ag anghenion a heriau gwasanaeth tân ac achub cyfoes** – bydd hyn yn sicrhau bydd ein gwasanaethau a'n prosesau yn deg a chyrchadwy.

# Parhau i Weithio'n Effeithiol

## Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru iachach

### Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn gwbl atebol i'r cyhoedd drwy wneud yn siŵr bydd ein cymunedau'n deall y risgiau yn eu hardal hwy. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd o'r hyn rydym yn gyfrifol amdano o ran darparu drwy drefniadau partneriaeth a sut rydym yn cynllunio i wneud hyn. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhoi cyfle i ddinasyddion ddeall ein hamcanion a'r cyfle i gyfrannu at y cynllun hwn wrth ddarparu adborth. Bydd ein Cynllun Gwella Blynyddol yn hysbysu'r cyhoedd o'n cynnydd wrth gyflawni'r amcanion hyn a'r cwmpas am welliannau pellach. Wrth i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus barhau, byddwn yn mynd ar drywydd pob cyfle posib i adnabod arbedion effeithlonrwydd a chadw costau i lawr wrth gyflawni ein dyletswyddau craidd yn effeithiol.

Ein nod yw eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ffyrdd newydd a gwell o weithio, a monitro ein gweithgareddau drwy law proses rymus o archwiliadau mewnol a meincnodi yn erbyn gwasanaethau tân ac achub eraill.

**Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol**

### Byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol wrth:

- Fod yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio

### Rydym yn mesur ein cynnydd drwy fonitro:

- Canlyniadau rhaglenni archwilio mewnol ac allanol
- Meincnodi yn erbyn gwasanaethau tân ac achub eraill
- Safbwynt Archwilio Cymru ar ddatganiadau ariannol
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd

### Beth wnaethom yn 2022-2023

Cynhaliwyd saith deg diwrnod o archwilio o dan ein rhaglen archwilio fewnol i ddarparu asesiad o sicrwydd a chydymffurfiaeth ar draws 12 maes gwahanol: derbyniodd tri sicrwydd sylweddol a derbyniodd tri sicrwydd rhesymol.  Rydym yn disgwyl am y chwe adroddiad sy'n weddill  Mae pob pwynt gweithredu a godwyd o fewn pob un o'r archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu.

Rydym wedi adolygu a chrynhoi tystiolaeth ddogfennol o ymateb y Gwasanaeth i'r pandemig ar gyfer y dyfodol.

Er bod caffael system gyllid o dan ystyriaeth yn nhermau gweithdrefnau ac amserlenni, mae ein system bresennol yn cael ei uwchraddio bydd yn darparu gwerth am arian a buddion system.

Cwblhawyd y cyfleuster Chwilio ac Achub Trefol (ChAT) newydd yng ngorsaf dân ac achub Yr Eglwys Newydd ym Mawrth 2023, yn darparu canolfan i ChAT Cymru.

Fe wnaethom adolygu ein cyrsiau hyfforddi i eithafu mynychiad wrth fudo elfennau theori i hyfforddiant ar-lein dan arweinyddiaeth hyfforddwr. Ailgynlluniwyd cyrsiau achub o ddŵr a chyrsiau offer anadlu (OA) gyda rhagor i ddilyn.

## Beth a wnawn yn 2023-2024

- **Paratoi a chynllunio ar gyfer effaith y Bil Caffael a'r Bil Caffael Cyhoeddus a Phartneriaeth Cymdeithasol** – bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau caffael cyhoeddus i ganiatáu effeithlonrwydd, tryloywder a hyblygrwydd.
- **Adolygu a diwygio gweithdrefnau yn dilyn unrhyw newidiadau deddfwriaethol i'r dyfodol yng Nghymru** – i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau fel corff rheoleiddiol.
- **Adolygu ein gweithdrefnau gwaredu** – i sicrhau bydd ein hasedau, o gerbydau i gelfi, yn cael eu rheoli ar hyd eu cylch bywyd.

## Ymateb Brys

Gall effeithiau tân fod yn ddinistriol. Cofiwch wirio eich larwm mwg bob wythnos a chorfforwch diogelwch yn y cartref i'ch arferion.

Am ragor o wybodaeth. ewch i'n **gwefan.**



# Trosolwg Ystadegau 2021-2022

Derbyniwyd **32,455** o alwadau gan Gyd-Reoli Tân ar gyfer ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan gynnwys:

Cyfeiriwyd **993** galwad at asiantaethau eraill.

Doedd dim angen ymateb brys ar **2,081** o alwadau a deliwyd â hwy gan Cyd-Reoli Tân.

Deliwyd â **9,986** o alwadau ailadroddus oedd yn ymwneud â digwyddiadau oedd yn digwydd eisoes

Mynychwyd **17,501** o ddigwyddiadau

**5,565** o Danau gan gynnwys:

- **614** o danau damweiniol mewn anheddau
- **1,073** o danau glaswellt/ danau gwyllt
- **2,496** o danau gwastraff

Roedd **71.3%** o'r tanau a fynychwyd yn fwriadol

**8,367** o Alwadau Ffug mewn ymateb i:

- **4,937** o larymau tân awtomatig
- **3,169** o alwadau â bwriad da
- **261** o alwadau ffug maleisus

**3,569** o Alwadau Gwasanaeth Arbennig gan gynnwys:

- **859** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- **32** o achubiadau o ddŵr
- **2,678** o ddigwyddiadau brys eraill



Roedd gweithgarwch lleihau risg yn cynnwys:

- **1,117** o ymweliadau ag ysgolion
- **8,122** o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref
- **702** o archwiliadau diogelwch tân

* Yn cynnwys cynorthwyo asiantaethau eraill, achub o uchder.

# Dangosyddion Perfformiad Strategol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein perfformiad i sicrhau ein bod mor effeithlon ac effeithiol â phosib. Felly, rydym yn gosod targedau blynyddol yn erbyn Dangosyddion Strategol Llywodraeth Cymru ac yn monitro ein perfformiad yn erbyn y rhain yn ystod y flwyddyn. Cymeradwywyd ein targedau ar gyfer 2023-2024, a nodir isod, gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar y 13eg o Chwefror 2023 ar sail gwerthusiad tueddiadau digwyddiadau.

| | Blwyddyn Ariannol 18-19 | Blwyddyn Ariannol 19-20 | Blwyddyn Ariannol 20-21 | Blwyddyn Ariannol 21-22 | Blwyddyn Ariannol 22-23* | Tuedd 5 Blynedd | Targed Blwyddyn Ariannol 23-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau a fynychwyd | 6,898 | 5,482 | 5,481 | 5,565 | 6,031 |  | 5,889 |
| Galwadau ffug a fynychwyd | 7,847 | 7,858 | 8,324 | 8,367 | 8,746 |  | 8,315 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd | 1,112 | 995 | 643 | 859 | 848 |  | 858 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd | 2,062 | 2,569 | 2,275 | 2,711 | 3,079 |  | 2,868 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o holl danau | 71 | 84 | 49 | 62 | 63 |  | 62 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol | 55 | 64 | 42 | 53 | 52 |  | 52 |
| Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd o fewn yr ystafell lle y'u tarddwyd | 82.50% | 84.20% | 82.23% | 83.81% | 82.65% |  | 85.00% |

* Mae'r data yn gywir ar y 29ain o Mehefin 2023 – nid yw'r rhain yn ffigurau blwyddyn gyfan ac yn destun newid




## Addysg Diogelwch Tân

Rydym yn credu mai'r ffordd orau i leihau risg yw drwy law addysgu ac atal - dyna pam mae ein timau Addysgu a Gwasanaethau Ieuenctid arbenigol yn dysgu plant a phobl ifanc ar draws ardal De Cymru ynghylch pwysigrwydd diogelwch tân.

# Ein Cyllideb 2023-2024

Ariennir ein Gwasanaeth gan y 10 awdurdod unedol rydym yn gwasanaethu, ar sail poblogaeth pob ardal. Yn 2021-2022, roedd y gost gyfwerth â 92c i bob pen yr wythnos - yn ddinewid ers y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi darparu ein gwasanaethau o fewn ffiniau'r gyllideb a byddwn yn parhau i adnabod arbedion effeithlonrwydd.

| CYFANSWM CYLLIDEB 2023-2024 | £89,375,480 |
|---|---|
| Gweithwyr | £56,418,972 |
| Pensiynau | £12,284,683 |
| Adeiladau | £6,336,855 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £5,755,273 |
| Cymorth | £5,069,223 |
| Hyforddiant | £1,776,112 |
| Cludiant | £1,619,040 |
| Gwasanaethau Cytundebol | £1,152,085 |
| Incwm | -£1,036,763 |

Mae tua dau draean o'n cyllideb wedi'i haseinio i gostau staff a chostau perthnasol, ac eithrio pensiynau.

| CYLLIDEB GWEITHWYR 2023-2024 | £56,418,972 |
|---|---|
| Staff Gweithredol | £41,862,959 |
| Staff Corfforaethol | £10,065,206 |
| Staff Rheoli | £1,515,587 |
| Costau staff eraill (Yn cynnwys goramser, teithio a chostau eraill sy'n ymwneud â staff.) | £2,975,220 |

**Gyda 47 o orsafoedd tân ac achub a thros 1,600 o staff, rydym yma i chi mewn argyfwng ar gyfer:**

- Y 10 awdurdod unedol sy'n cwmpasu 2,800 milltir sgwâr ynghyd â 3.7 milltir sgwâr o ddŵr mewndirol
- Dros 650,000 o aelwydydd a thros 1.5 miliwn o bobl
- Busnesau yn Ne Cymru, gan gynnwys dros 36,000 o fusnesau sydd mewn cysylltiad eisoes â ni

**24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn - sy'n costio 92c y pen yr wythnos**

# Datblygu Ein Cynllun

Mae ein proses gynllunio blynyddol yn esblygu blwyddyn ar ôl flwyddyn wrth i ni adnabod cyfleoedd i gynnwys eraill a chyfathrebu datblygiadau. Rydym yn cymryd pob cyfle i adolygu ein cynlluniau a'r cynnydd rydym yn gwneud, ac ystyried effaith hirdymor ein gweithgarwch.

Rydym yn cwrdd â'n Uwch Dîm Rheoli yn rheolaidd i ystyried yr holl risgiau sy'n ymwneud â thân ac achub a all effeithio cymunedau De Cymru a phenderfynu ar ffyrdd i weithio'n effeithiol ar atal y risgiau hyn rhag niweidio'r rhai hynny sydd o fewn ein cymunedau.

Hefyd, rydym yn ystyried ein cyllidebau a'r cyfreithiau sy'n effeithio arnom i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein gwaith i'r mannau cywir. Yna, rydym yn datblygu cynlluniau mwy manwl ar gyfer pob blwyddyn, sy'n dod yn amcanion i ni. Rydym yn ymgynghori â'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid cyn cwblhau ein hamcanion.


Darperir ein hamcanion drwy law tasgau cynllun busnes sy'n cael eu hadolygu a'u monitro'n gyson. Rydym yn darparu adroddiadau rheolaidd ar ein cynnydd yn erbyn y tasgau hyn i'n Hawdurdod Tân ac Achub. Mae papurau Awdurdod Tan ac Achub yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a gellir eu cyrchu **YMA.**

## Ymgynghori ac ymgysylltu

Bob blwyddyn rydym yn cynnal arolwg gyda'n staff, y cyhoedd a'n partneriaid i asesu'u safbwyntiau ar ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Mae adborth sy'n cael ei dderbyn yn cael ei hadrodd i'r Awdurdod Tan ac Achub, yr Uwch Dîm Rheoli a rheolwyr mewn cyfarfodydd cynllunio adrannol i sicrhau ystyriaeth fanwl o'r ymatebion. Yn ogystal â darparu rhywfaint o gytundeb â'n hamcanion, rydym yn adnabod materion a themâu allweddol a godwyd, gan gynhyrchu dogfen ymateb a gyhoeddir ar ein gwefan. O'r ymgynghoriad, efallai gellir diwygio neu ail-ganolbwyntio ar flaenoriaethau. Lle bo'n angenrheidiol, rydym yn darparu eglurhad ychwanegol o'r cefndir i'r gweithgareddau arfaethedig ynghyd â'i bwrpas.

Cynhaliwyd arolwg eleni o'r 21ain o Hydref 2022 hyd at y 13eg o Ionawr 2023. Y canlyniadau allweddol oedd:

- Roedd ymgysylltiadau â'r arolwg yn uwch gyda 227 o ymatebwyr yn darparu adborth o'i gymharu â 157 yn 2021-2022, cynnydd o 44.6%.
- Ar y cyfan, roedd cytundeb cryf â'n Themâu Strategol a'r Amcanion arfaethedig gydag 81% o'r holl atebion yn dynodi eu bod yn cytuno'n gryf neu'n rhannol. Cynyddodd y cytundeb ar gyfer saith o'r wyth Thema Strategol gyda "Diogelu ein Hamgylchedd" yn gostwng gan ddim ond 1%.
- Felly, bydd Ein Themâu ac Amcanion Strategol yn parhau'n ddinewid am y flwyddyn sydd i ddod.




*Yn gytun â Themâu ac Amcanion Strategol – O'u cymharu ag ymatebion ymgynghorol.*

## Pwyntiau Allweddol a Godwyd gan yr Ymgynghoriad

**Gwella'r Cynllun Gwella Blynyddol a'r Ymgynghoriad** – Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo fod yr arolwg ymgynghori'n rhy hir ac roedd angen darllen y cynllun llawn er mwyn ymateb. Felly, byddwn yn adolygu ein prosesau ymgynghori gyda phwyslais ehangach ar gipio pryderon a blaenoriaethau lleol ynghyd â chanfod ffyrdd o wneud ein cynlluniau'n fwy cyrchadwy.

**Cynyddu cefnogaeth i Bartneriaid** – Rydym yn canfod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn partneriaeth sy'n cael ei adlewyrchu yn ein cynlluniau ar gyfer 2023-2024. I gefnogi'r gweithgaredd hwn, rydym yn archwilio amryw ffyrdd o gymorth, gan gynnwys hyfforddiant cydfuddiannol ac arwyddbostio neu hyrwyddo gwasanaethau megis archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref.

**Gwella recriwtio a dargadwedd** – Sylwadau wedi'u canolbwyntio ar bersonél Ar Alwad a datblygiad gyrfa. Mae argaeledd Ar Alwad, gan gynnwys recriwtio, yn parhau'n amcan allweddol i ni a byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd. Bydd datblygu gyrfa o fewn y Gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan y Porthol e-Hyb Dysgu a Datblygu a lansiwyd yn ddiweddar ynghyd â'r cynllun Llwybrau Datblygu, sy'n agored i'r staff cyfan, i gefnogi datblygiad parhaus neu ddyrchafiad i rôl arweinyddol.


**Gwella amodau gwaith yng Nghyd-reoli Tân** – Mae argymhellion o'r adolygiad Cyd-Reoli Tân diweddar yn cael eu gweithredu ac fe fydd cynnydd yn cael ei fonitro.

**Cyfathrebu gwell o'n gweithgareddau amgylcheddol a lleihau carbon** – Mae diweddariad o'n Cynllun Lleihau Carbon ar gyfer 2023-2030 yn cael ei lansio ac fe'i cefnogir gan strategaeth gyfathrebu i hysbysu staff a'r cyhoedd o'n gweithgareddau. Bydd Eiriolwyr Enwebedig Lleihau Carbon o fewn y Gwasanaeth yn allweddol i'r weithred hon.

Gellir canfod ymateb llawn i'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r arolwg ymgynghori' ar ein gwefan.

## Cyd-destun y Cynllun Hwn

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio ag amrediad o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyrff sector cyhoeddus ac yn benodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r materion cyfreithiol hyn yn darparu cyd-destun i'n cynllun ar gyfer 2023-2024 law yn llaw â'n cenhadaeth trosfwaol o "Wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg".






## Fflyd a Pheirianneg

Mae ein tendrau achub ar linell flaen ein hymateb brys. Mae'r ychwanegiadau diweddaraf i'n fflyd yn cael eu uwchraddio i gefnogi ein galluogrwydd achub o ddŵr.


# Cynlluniau a Strategaethau Eraill

Rydym wedi datblygu strategaethau a chynlluniau eraill sy'n cefnogi cyflawniad ein hamcanion strategol cyfansymiol gan gynnwys:




## Ein Cynllun Strategol 2020-2030

Mae'r ddogfen hon yn datgan ein strategaeth hirdymor i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol a chynaliadwy. Mae'n cyflwyno'r wyth Thema Strategol a gwmpasir o fewn y diweddariad hwn.




## Ein Cynllun Gwella Blynyddol 2022-2023

Bob blwyddyn rydym yn edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol i adolygu effaith ein gweithgareddau gwella cynlluniedig a hefyd edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod wrth gyflwyno amlinelliad o'r camau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriadau â'r cyhoedd.





## Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026

Wrth nodi ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y tair blynedd nesaf, mae'r cynllun hwn yn manylu sut byddwn yn gweithio tuag at ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.




## Ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023

Mae'r cynllun hwn yn datgan sut byddwn yn parhau i wella'r ffyrdd y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau'r niwed lleiaf i'n hamgylchedd.




## Ein Hadroddiad Monitro'r Gymraeg

Mae'r ddogfen hon yn datgan ein camau i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# Yr Iaith Gymraeg

We Rydym yn ymrwymedig i wasanaethu'r rhai hynny sy'n dewis cyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn effeithiol. Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg 2015, derbyniodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru Rhybudd Cydymffurfiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i'r Awdurdod. Cyhoeddir y **Hysbysaid Cydymffurfiaeth** hwn ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion ynghylch ba wasanaethau gall pobl ddisgwyl derbyn yn Gymraeg. Rydym yn chwilio i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella safon gyfansymiol darpariaeth ein gwasanaethau.

## Fersiynau amgen

Rydym yn cyhoeddi fersiwn "Cip ddarllen" o'r cynllun hwn ac mae'r ddwy fersiwn ar gael ar ein gwefan gyda swyddogaeth awdio "Gwefan lafar". Pe bai angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, **cysylltwch â ni.**

## Lleisia Dy Farn

Rydym yn chwilio'n barhaol am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth ddarparu ein gweithgareddau ac adrodd arnynt. Am ddiweddariadau rheolaidd a gwahoddiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac arolygon i'r dyfodol, cysylltwch â ni i ymuno â'n Cofrestr Rhanddeiliaid.

## Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant CF72 8LX

## Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

## E-bostiwch ni

ded@decymru-tan.gov.uk

## Galwch ni

01443 232000

@TanDeCymru @TanDeCymru @sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.




## Cadetiaid Tân

Mae ein rhaglen Cadetiaid Tân yn hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth, gwaith tîm a dinasyddiaeth o fewn amgylchedd hwylus a heriol. Yn ogystal â datblygu sgiliau cymdeithasol, gall cyfrannwyr weithio tuag at gymhwyster BTEC cymeradwy.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd yn fewnol gan Y Wasg a Chyfathrebiadau 2023 | 3972/SPAC